


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub De Cymru


Cyhoeddwyd: Mawrth 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 202A2013

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lisa Williams a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'r broses o gyhoeddi adroddiadau ar berfformiad mor glir ag y gallai fod 8

- Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd, er bod meysydd sy'n achosi pryder o hyd 8
- Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwerthuso ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad yn gytbwys, ond gellid atgyfnerthu'r ffordd y cyflwynir adroddiadau i'r cyhoedd ymhellach a'i gwneud yn fwy hygyrch 12
- Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13 15

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 18

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 19

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 21

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 23

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda ond nad yw'r adroddiadau ar berfformiad i'r cyhoedd mor glir ag y gallent fod.

3 Canfuwyd bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd er bod meysydd sy'n achosi pryder o hyd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac, er bod nifer y marwolaethau wedi cynyddu, roedd nifer yr anafiadau wedi lleihau;
- ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni fu unrhyw farwolaethau a lleihaodd nifer yr anafiadau;
- ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a lleihaodd nifer yr anafiadau, ond mae lefel uchel y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn achosi pryder o hyd;
- ymatebwyd i fwy neu lai yr un nifer o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd a lleihaodd nifer y bobl a gafodd eu hanafu neu eu lladd, ond bu cynnydd yn nifer y damweiniau angheuol a difrifol ac o fewn grwpiau â blaenoriaeth o yrwyr ifanc a gyrwyr beiciau modur.

4 Canfuwyd hefyd fod y ffordd y mae'r Awdurdod yn gwerthuso ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad yn gytbwys, ond gellid atgyfnerthu'r ffordd y cyflwynir adroddiadau i'r cyhoedd ymhellach a'i gwneud yn fwy hygyrch. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod:

- wedi llunio barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol;
- wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i argaeledd ei Gynllun Gwella Strategol, ond mae'n dibynnu llawer ar y fformat electronig a gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl;
- wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i ddod i'w gasgliadau ac mae'n gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch.

5 I gloi, daethom i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae trefniadau cynllunio busnes wedi ymsefydlu'n gadarn, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau;
- mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol;
- gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- er bod rhai gwendidau o ran y dull gweithredu, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd;
- mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.

# Argymhellion

6 Ni wneir unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda help gan arolygiaethau Cymru, gan gynnwys Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1], rydym wedi dwyn ynghyd ddarlun o'r hyn y mae pob awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut y mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

# Mae'r Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nid yw'r broses o gyhoeddi adroddiadau ar berfformiad mor glir ag y gallai fod

## Mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd, er bod meysydd sy'n achosi pryder o hyd

11 Isod rydym wedi rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn pedwar maes allweddol (tanau mewn anheddau, tanau ar safleoedd annomestig, cynnau tanau yn fwriadol, a damweiniau traffig ar y ffordd). Mae'r rhain yn adlewyrchu Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru a swyddogaethau neu ddyletswyddau craidd awdurdodau tân ac achub yn y DU yn ystod 2011-12 sef:

- hyrwyddo diogelwch tân drwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau;
- rhoi cyngor, ar gais, ar sut i atal tanau a chyfyngu ar eu gallu i ymledu mewn adeiladau a mathau eraill o eiddo, ac ar ffyrdd o ddianc os bydd tân;
- darparu ar gyfer diogelu bywyd ac eiddo os bydd tân;
- darparu ar gyfer achub a diogelu pobl rhag niwed difrifol os bydd damweiniau traffig ar y ffordd;
- ymateb i argyfyngau eraill neu bosibiliadau o'r fath fel y bo angen i ddiogelu pobl, eiddo neu'r amgylchedd.

### Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac, er bod nifer y marwolaethau wedi cynyddu, roedd nifer yr anafiadau wedi lleihau

12 Cafwyd gostyngiad o dri y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 904 o achosion yn 2010-11 i 881 yn 2011-12), sydd ychydig yn is na'r gostyngiad cyfartalog o bedwar y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

- Cafwyd cynnydd o un y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn ddamweiniol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 751 o achosion yn 2010-11 i 759 yn 2011-12). Nid yw'r cynnydd hwn yn cymharu'n dda â gostyngiad cyfartalog Cymru o ddau y cant ar gyfer yr un cyfnod.
- Cafwyd gostyngiad o 20 y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn fwriadol (o 153 o achosion yn 2010-11 i 122 yn 2011-12) sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o 19 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

13 Bu farw pedwar o bobl mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2011-12 (un yn fwy na 2010-11). Cafwyd gostyngiad sylweddol o 30 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau (o 124 o achosion yn 2010-11 i 87 yn 2011-12) sy'n well na'r gostyngiad o 21 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

14 Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim, addysg a chyngor a ddarperir fel rhan o'i wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn cyrraedd y rheini sy'n wynebu risg, yn arbennig, yn y tanau yr ymatebwyd iddynt:

- roedd llai o bobl yn byw mewn cartref lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod (o 47 y cant yn 2010-11 i 42 y cant yn 2011-12), er bod y gyfran hon yn uwch o hyd na chyfartaledd Cymru sef 34 y cant ar gyfer 2011-12;
- bu cynnydd yn nifer yr achosion o gyfarpar canfod tân a weithredwyd (o 42 y cant yn 2010-11 i 46 y cant yn 2011-12), er bod y gyfran hon yn is o hyd na'r cyfartaledd o 51 y cant ledled Cymru ar gyfer 2011-12;
- roedd gan ychydig yn fwy o anheddau lle bu tanau gyfarpar canfod tân wedi ei osod na chafodd ei weithredu (o 12 i 13 y cant) ac mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru o 16 y cant ar gyfer 2011-12.

## Ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a lleihaodd nifer yr anafiadau

15 Cafwyd gostyngiad o 23 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 460 o achosion yn 2010-11 i 354 yn 2011-12), sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o 17 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

16 Ni fu farw unrhyw bobl mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2011-12 (fel yn 2010-11) yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Cafwyd gostyngiad o 71 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau o'r fath (o 14 yn 2010-11 i 4 yn 2011-12) sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o 42 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

17 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith mewn eiddo masnachol a busnesau. Gall hefyd ddarparu cyngor a chymryd camau gorfodi os ystyrir bod angen gwneud hynny, er enghraifft os bydd risg ddifrifol yn bodoli ac nad yw'n cael ei rheoli. Yn ystod Hydref 2012, adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid Ddiogelwch Tân mewn Busnesau a chanfu fod yr Awdurdod:

- Wedi casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau i asesu a blaenoriaethu risg a defnyddir i dargedu gweithgareddau ac adnoddau.
- Wedi cydnabod cyfyngiadau'r System Rheoli Gwybodaeth (MIS) gyfredol ac wedi rhagweld cyflwyno MIS newydd, er nad oedd y tîm asesu yn gallu cadarnhau cynllun cadarn ar gyfer gwneud cynnydd.
- Wedi cydnabod pwysigrwydd sgiliau arbenigol ac wedi adlewyrchu hyn yn ei strwythur staff.

- Wedi cyflwyno gweithgarwch gweithio ystwyth a gweithio o bell - â chymorth a arweiniodd at fwy o gynhyrchiant a chostau gostyngol.
- Wedi gweithredu newidiadau yn dilyn adolygiad mewnol, a gafodd dderbyniad da gan y staff ac a oedd yn ystyriol o deuluoedd yn eu barn hwy. Roedd cynlluniau datblygu staff ar waith yn yr un modd ag yr oedd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol wrth gynllunio gweithgarwch. Fodd bynnag, cydnabu'r Awdurdod fod angen datblygu ffordd o gynnwys partneriaid allanol (megis busnesau) yn y broses gynllunio.
- Yn meddu ar system effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd gweithgarwch archwilio a oedd yn cynnwys arsylwi ar wiriadau archwilio a'u cadarnhau yn electronig.
- Wedi defnyddio technoleg i sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf posibl (yn arbennig roedd mynediad o bell i systemau TGCh yn cefnogi gweithio ystwyth) ac roedd yn mynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas ag ymarferoldeb llechi data symudol.
- Wedi gweithio gyda phartneriaid mewn sectorau eraill i gyflawni gweithgarwch Diogelwch Tân Deddfwriaethol (wedi'i gefnogi gan ddull dwy ffordd o gyfnewid gwybodaeth).
- Wedi nodi bylchau yn ei broses mesur a oedd yn dibynnu ar ddangosyddion statudol a dangosyddion perfformiad craidd Llywodraeth Cymru. Ar adeg yr adolygiad roedd yr Awdurdod yn ystyried sut y gellid mesur ystod ehangach o ganlyniadau ac adrodd arnynt gan gynnwys lleihad mewn risg o ganlyniad i weithgarwch Diogelwch Tân Deddfwriaethol.
- Wedi amlinellu amrywiaeth o drefniadau a ddefnyddiwyd i nodi materion a dysgu gwersi o'i wasanaeth ei hun a gwasanaethau eraill, ac wedi cadarnhau bod trefniadau ar waith i weithredu gwelliannau a rhannu gwersi a ddysgwyd.

## Ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a lleihaodd nifer yr anafiadau, ond mae lefel uchel y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn achosi pryder o hyd

18 Cafwyd gostyngiad o 28 y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 9,586 o achosion yn 2010-11 i 6,847 yn 2011-12), sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o 25 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

19 Dechreuwyd 78 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn fwriadol yn ystod 2011-12, sy'n is na 2010-11 (81 y cant) ond mae'n parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 65 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

20 Cafwyd gostyngiad o 14 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol (o 22 yn 2010-11 i 19 yn 2011-2012) sy'n well na'r gostyngiad cyfartalog o dri y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

21 Bu farw dau berson mewn tanau bwriadol yn ystod 2011-12 (ni fu unrhyw farwolaethau yn 2010-11) ond mae'r niferoedd yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

## Ymatebwyd i fwy neu lai yr un nifer o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd a lleihaodd nifer y bobl a gafodd eu hanafu neu eu lladd, ond bu cynnydd yn nifer y damweiniau angheuol a difrifol ac o fewn grwpiau â blaenoriaeth o yrwyr ifanc a gyrwyr beiciau modur

22 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru. Yn ystod 2011-12 cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau, rhai gyda phartneriaid, a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau ar y ffordd gan gynnwys:

- Beicio diogel – prosiect i leihau nifer y marwolaethau, anafiadau a damweiniau gan ddefnyddwyr beiciau modur;
- Effaith Domino – pecyn addysgol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 i'w hysbysu am ganlyniadau ymddygiad amhriodol mewn cerbyd;
- Car Cruise – i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau gyrwyr ifanc sydd mewn perygl a nodwyd drwy gudd-wybodaeth leol a rhanbarthol;
- Pass Plus Cymru – i addysgu gyrwyr newydd am achosion damweiniau a gwella eu sgiliau gyrru.

23 Parhaodd i fod yn aelod hefyd o fforymau perthnasol megis fforwm Diogelwch ar y Ffordd De Cymru a Gwent a'r Pwyllgor Uwch Swyddogion Traffig.

24 Bu rhai gwelliannau o ran diogelwch ar y ffordd yn Ne Cymru:

- ymatebwyd i fwy neu lai yr un nifer o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd â'r flwyddyn flaenorol (cynnydd o 1,079 yn 2010-11 i 1,083 yn 2011-12) sy'n is na'r gostyngiad o saith y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod;
- cynyddodd damweiniau angheuol a difrifol 15 y cant rhwng 2010 pan gafwyd 298 o ddamweiniau, a 2011 pan gafwyd 343 o ddamweiniau; mae hyn ychydig yn fwy na'r cynnydd a welwyd ledled Cymru, sef 14 y cant;
- cynyddodd nifer y bobl a fu farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd o 26 yn 2010 i 41 yn 2011;
- bu gostyngiad o bedwar y cant yn nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu rhwng 2010 pan gafodd 3,935 o bobl eu lladd neu eu hanafu a 3,763 yn 2011; mae'r gostyngiad hwn yn well na'r cynnydd a welwyd ledled Cymru, sef chwech y cant;
- bu mwy o yrwyr 25 oed ac iau mewn damweiniau yn 2011 o gymharu â 2010 (o 1,035 i 1,055), cynnydd o ddau y cant o gymharu â gostyngiad o bedwar y cant ledled Cymru;
- cafodd mwy o yrwyr beiciau modur eu hanafu neu eu lladd yn 2011 o gymharu â 2919 (o 189 i 191), sef cynnydd o un y cant o gymharu â gostyngiad o bump y cant ledled Cymru.

# Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gwerthuso ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad yn gytbwys, ond gellid atgyfnerthu'r ffordd y cyflwynir adroddiadau i'r cyhoedd ymhellach a'i gwneud yn fwy hygyrch

## Mae'r Awdurdod wedi llunio barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol

25 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 daethom i'r casgliad nad oedd y ffordd y gwerthuswyd nac y cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn seiliedig ar ganlyniadau. Nodwyd yn benodol fod Cynllun Gwella'r Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011 yn anghyson yn ei ddefnydd o gymariaethau, ac nad oedd yn cynnwys y canlynol:

- arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad yn gyffredinol, a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol yn sgil hynny;
- asesiad o gynnydd yn erbyn pob Amcan Gwella;
- asesiad cytbwys o'i gyflawniadau.

26 Ym mis Rhagfyr 2012, adroddwyd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliannau o dan y Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n bleser nodi bod yr Awdurdod wedi cydnabod diffygion blaenorol, a dangosodd y Cynllun Gwella Strategol a gyhoeddwyd yn 2012 lefel well o hunanymwybyddiaeth na'r flwyddyn flaenorol a rhoddodd adroddiad mwy cytbwys ar ei berfformiad, gan roi cyfrif am ei fethiannau i berfformio, yn ogystal â hyrwyddo ei lwyddiannau. Mae'r adroddiad yn disgrifio perfformiad yn erbyn pob un o'i bum Amcan Gwella mewn adrannau ar wahân, ac mae pob un yn cynnwys disgrifiad o'r heriau parhaus a'r hyn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei wneud i'w hateb. Byddai'r gwaith o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd yn cael ei atgyfnerthu pe bai'r Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- darparu gwell dulliau o groesgyfeirio a dangos y ffordd, a fyddai'n tywys y darllenydd drwy adrannau amrywiol y ddogfen sydd ar y we yn bennaf;
- datgan yn fwy penodol a yw pob Amcan Gwella wedi cael ei gyflawni'n llawn, er enghraifft, drwy ddarparu datganiad terfynol sy'n adlewyrchu'r holl ganlyniadau ym mhob amcan;
- casglu'r datganiadau hyn i ddarparu datganiad mwy cadarn yn yr adran hafan gan nodi barn yr Awdurdod o ran pa mor dda y mae wedi perfformio'n gyffredinol;
- defnyddio iaith fwy cryno a llai 'technegol' (sy'n tybio bod y darllenydd yn gyfarwydd â'r gwasanaeth tân ac achub, ac a all ei gwneud yn anodd i rai pobl ddeall y testun yn llwyr).

27 Mae adolygiad o berfformiad yn swyddogaeth reolaidd a gyflawnir fel mater o drefn drwy'r sefydliad cyfan, yn cynnwys rheolwyr ac aelodau yn y gwaith o asesu a rheoli perfformiad. Dadansoddir canlyniadau perfformiad ac fe'u defnyddir i nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd gwan a heriau yn y dyfodol. Mae'r broses o baratoi'r Cynllun Gwella Strategol hefyd yn rhoi ffocws i'r Awdurdod herio ei hun, dysgu a myfyrio ar ei berfformiad, ac adrodd ar ei gynnydd i'r cyhoedd.

## Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i hygyrchedd ei Gynllun Gwella Strategol; mae'n dibynnu llawer ar y fformat electronig a gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl

28 Mae adolygiad yr Awdurdod o'i berfformiad ar gael ar ffurf electronig yn bennaf a sicrhaodd fod ei Gynllun Gwella Strategol ar gael i'r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo'r ffaith ei fod ar gael drwy ohebiaeth e-bost uniongyrchol at randdeiliaid a thrwy sicrhau ei fod ar gael yn hawdd ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub (ar yr hafan). Mae'r Awdurdod wedi defnyddio posteri yn ei adeiladau i godi ymwybyddiaeth o'r ddogfen ar-lein; mae copïau ar gael mewn gorsafoedd tân ac ar gais o Bencadlys y Gwasanaeth. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol, megis Twitter, i hyrwyddo'r Cynllun Gwella Strategol a chael adborth gan y cyhoedd.

29 Nid yw'r Awdurdod wedi cynhyrchu 'Crynodeb' ar wahân. Byddai cynnwys datganiad cryno clir ar ddechrau'r adran ar yr adolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf (neu mewn lle amlwg ar y wefan) yn helpu'r cyhoedd i ddeall y sefyllfa gyffredinol. Byddai hyn hefyd yn ffordd o dywys y cyhoedd drwy'r asesiadau manylach ar gyfer pob thema (lle y ceir barn yr Awdurdod ar ei berfformiad). Gallai hyn hefyd fod yn 'grynodeb' ar ei ben ei hun y gellir ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol.

## Mae'r Awdurdod wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i ddod i'w gasgliadau ac mae'n gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch

30 Canfu ein harchwiliad o ddangosyddion perfformiad fod gan yr Awdurdod systemau dibynadwy ar gyfer sicrhau bod y dangosyddion a ddefnyddir ganddo yn ei adroddiadau yn gywir. Aeth yr Awdurdod i'r afael â'r mater a godwyd yn ystod ein Harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad 2010-11 o ran gwella cywirdeb y data a ddelir yn y System Cofnodi Digwyddiadau, a chofnodi data marwolaethau tân yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

31 Defnyddiodd yr Awdurdod ddigon o dystiolaeth i wneud asesiad dilys o berfformiad drwy esbonio bwriadau a darparu disgrifiadau o gynnydd. Mae'r Awdurdod yn darparu data ar ba mor dda y mae wedi perfformio yn erbyn targedau cyfredol y flwyddyn, y canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y pedair blynedd flaenorol a, lle y bo'n bosibl, yn erbyn awdurdodau tân ac achub eraill yn ei 'grŵp teuluol' ledled y DU. Fodd bynnag, mae cymharu perfformiad â pherfformiad awdurdodau gwella a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru yn gyfyngedig. Ni ddefnyddir gwybodaeth o arolygon boddhad nac arolygon o ddinasyddion i gadarnhau barn y gymuned ehangach yn yr asesiad. Awgryma Llywodraeth Cymru hefyd, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys y mesurau canlynol (lleol yn bennaf), na chyflwynir adroddiad arnynt ar hyn o bryd, yn adroddiad yr Awdurdod ar yr asesiad o berfformiad:

- perfformiad o ran lleihau nifer yr anafiadau gweithredol ymhlith diffoddwyr tân;
- perfformiad o ran cynnal cymhwysedd gweithredol;
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Awdurdod Tân ac Achub Cymru (er bod rhywfaint o ddata ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gynnwys);
- perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod;
- gwybodaeth mewn perthynas â chynaliadwyedd (lle mae amcan gwella penodol ar gyfer hyn).

32 Nid yw rhai o'r disgrifiadau y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio i werthuso ei lwyddiant yn canolbwyntio ddigon ar ganlyniadau. Cydnabu'r Awdurdod y maes hwn sydd angen ei wella ac mae wedi bod yn datblygu mesurau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i asesu perfformiad yn erbyn blaenoriaethau 2012-13 ac o ran gosod Amcanion Gwella 2013-14.

# Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r dyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13

## Mae trefniadau cynllunio busnes wedi ymsefydlu'n gadarn, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau

33 Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo newid. Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2012, mae aelodaeth yr Awdurdod wedi newid yn sylweddol: mae 10 aelod wedi dychwelyd ac mae 14 aelod newydd yn gwasanaethu ar yr Awdurdod am y tro cyntaf. O ganlyniad, cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi amrywiol er mwyn briffio aelodau'n llawn yn eu rolau newydd.

34 Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-13 ar ffurf electronig am y tro cyntaf. Yn ystod haf 2012 adolygodd yr Awdurdod a oedd newydd ei ffurfio yr Amcanion Gwella hyn a chan ddefnyddio iaith symlach a darparu esboniad pellach o pam y cawsant eu dewis, llwyddodd i wneud yr Amcanion Gwella yn haws i'r cyhoedd eu deall.

35 Mae'r Awdurdod wedi rhoi esboniad clir o pam y dewiswyd ei bedwar amcan gwella ar gyfer 2012-13. Mae hefyd wedi nodi'r gwelliannau gweledol y mae'n gobeithio eu cyflawni (drwy'r disgrifyddion 'sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi bod yn llwyddiannus?' a 'pa ganlyniad y dylai ein cymunedau amrywiol ei ddisgwyl?') drwy ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol.

36 Nodir y camau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion gwella yn glir a chânt eu monitro'n fisol gan uwch reolwyr. Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i ddiweddaru fersiynau electronig y cynlluniau ar wefan yr Awdurdod ac wedi newid y broses o gyflwyno adroddiadau ar gynnydd i aelodau a'r cyhoedd.

37 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda phob awdurdod tân ac achub yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau tân ac achub yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod tân ac achub wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

38 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn parhaodd yr Awdurdod â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth staff o'r gofynion sydd arnynt i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, gan ddatblygu a darparu canllaw ar y fewnrwyd, a hefyd trwy sicrhau bod holl aelodau newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y Gymraeg. Mae'r gefnogaeth a roddir i staff i weithio tuag ag gymhwyster Cymraeg yn gadarnhaol, ond nifer fach o'r gweithlu sydd â chymhwyster yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Dangosodd yr Awdurdod bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ymladdwyr tân sy'n gallu siarad Cymraeg, a bod hyn o ganlyniad i broses fwy cywrain o gasglu

gwybodaeth trwy eu holiadur Sgiliau a Chymwysterau Cymraeg. Un datblygiad arwyddocaol yw'r ystyriaeth gychwynnol a roddir i Gynllun Mentora i ddysgwyr gan yr Awdurdod, a'r ymrwymiad a roddir gan yr Awdurdod i fuddsoddi adnoddau i'r Cynllun. Bydd angen i'r Awdurdod sicrhau bod sefydlu'r Cynllun yn flaenoriaeth yn ystod 2013.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

39 Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, ond mae maint y newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir o hyd.

40 Dengys y rhagolwg ariannol diweddaraf ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2014-15 fod angen i'r Awdurdod gyflawni arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol cronnol o £9.522 miliwn. Mae wedi nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn yn ei gynllun ariannol tymor canolig a chyflwynir adroddiadau ar gynnydd yn erbyn hyn i'w aelodau. Diweddarodd yr Awdurdod y rhagolwg fel rhan o'r broses o bennu cyllideb 2013-14 ac mae wrthi'n datblygu amcanestyniadau hyd at 2020. Byddwn yn adolygu hyn fel rhan o'n gwaith ar gyfer 2013-14.

41 Er bod dull y Cyngor o fynd i'r afael â'i heriau ariannol wedi bod yn gadarn ac wedi'i reoli'n dda hyd yma, erys llawer o broblemau o ystyried y lleihad tebygol mewn arian canolog termau real hyd at 2016-17 a thu hwnt. Mae'r Awdurdod yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi. Caiff peth o'r gwaith hwn ei wneud drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar a fydd yn ystyried y potensial am arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn ogystal â chyda'r cyhoedd yn fwy cyffredinol a'r sectorau gwirfoddol.

42 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Rhoddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon ar 27 Medi 2012 a grynhowyd yn ei Llythyr Archwilio Blynyddol - mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

43 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu cynigion ar gyfer gwella yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012).

44 Yn ystod Hydref 2012 adolygodd y Tîm Asesu Cymheiriaid y dystiolaeth a gyflwynwyd yn hunanasesiad yr Awdurdod er mwyn asesu'r 'cyfeiriad teithio' wrth weithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn flaenorol. Gwnaeth y Tîm waith dilynol ar y meysydd i'w datblygu mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant a Datblygiad, Diogelwch Cymunedol a Lleihau'r Risg i'r Gymuned, a Thrin ac Ymateb i Alwadau. Yn gyffredinol, nododd y tîm gynnydd ym mhob un o'r meysydd gyda rhai gwelliannau eraill wedi'u cynllunio ac roedd yn cytuno â'r cynnydd a nodwyd yn hunanasesiadau'r Awdurdod.

## Er bod rhai gwendidau o ran y dull gweithredu, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd

45 Gwnaethom adolygu dull yr Awdurdod o ymgysylltu â'r cyhoedd a daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf tuag at ddatblygu ei weithgarwch o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a bod angen iddo bellach weithredu dull mwy cydgysylltiedig a strategol a sicrhau bod ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid yn cael ei werthuso'n effeithiol.

## Mae'r trefniadau Llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod

46 Gwnaethom ystyried dull yr Awdurdod o Lywodraethu. Gwerthuswyd effeithiolrwydd adolygiad yr Awdurdod o Lywodraethu, a daethpwyd i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi ystyried ei drefniadau Llywodraethu ei hun mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr. Roedd ei adolygiad drwy gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn drylwyr ac yn gadarn ac roedd yn ddigon pellgyrhaeddol. Mae'r Awdurdod wedi gwneud defnydd o'i God Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu cadarn. Mae'r Awdurdod wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy.

47 Mae pedwar maes allweddol lle y dylid rhoi mwy o bwyslais ar adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau:

- bod y staff yn cael eu cynnwys yn fwy ar draws yr Awdurdod;
- bod mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned;
- y gwneir cymhariaeth ddigonol o berfformiad ag awdurdodau gwella eraill;
- y caiff y trefniadau Llywodraethu eu hystyried yn fwy mewn perthynas â phartneriaethau a gwaith comisiynu.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

## Yr Awdurdod

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[2] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Rhennir y Ddeddf yn ddwy ran; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol. O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio yn Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng;

2 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i helpu yn y rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a Chategori 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio yn lleol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn seiliedig ar ragolygon poblogaeth ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 24 o gynghorwyr o'r 10 awdurdod unedol yn Ne Cymru (caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £70 miliwn bob blwyddyn (2011-12). Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £5 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Mae hyn yn cyfateb i tua £47 fesul trigolyn.

Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Tudor Davies.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei waith ei gefnogi gan dri phrif bwyllgor, sef y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb, y Pwyllgor Safonau a nifer o weithgorau. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Huw Jakeway, y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y tîm rheoli corfforaethol.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod yn www.southwales-fire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Huw Jakeway
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

Annwyl Huw

**Llythyr Archwilio Blynyddol**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 24 Medi 2012.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm cytûn a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Virginia Stevens
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
cc. Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (bwriad y polisi yw y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth).

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 ar wefan yr Awdurdod yn www.southwales-fire.gov.uk. Yr amcanion yw:

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| **Amcan 1** Lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | **Ein Cymunedau: Rhoi tawelwch meddwl i'n Cymuned, ei haddysgu a'i diogelu rhag effeithiau tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill wrth iddynt ddigwydd** |
| 1 Cymryd camau rhagweithiol yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn lleihau ymhellach nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. | • Gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid eraill a thrwyddynt sydd eisoes mewn cysylltiad â grwpiau mewn perygl (mae'r rhain yn cynnwys timau troseddau ieuenctid, asiantaethau gofal a gofal cymdeithasol a Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas ag iechyd meddwl). |
| 2 Defnyddio prosesau modelu risg Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân a system ddata MOSAIC er mwyn nodi ardaloedd lle ceir risg uchel yn seiliedig ar anheddau a demograffeg a sicrhau bod mentrau diogelwch yn cael eu targedu yn fwy effeithiol er mwyn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon posibl. | • Defnyddio data'r swyddfa brisio, data achosion o dân a gwybodaeth leol i nodi safleoedd lle ceir risg uchel i ganolig ac addysgu, cynghori neu orfodi mewn ffordd briodol. |
| 3 Defnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol. | • Defnyddio sail tystiolaeth gadarn i dynnu sylw asiantaethau eraill at y ffaith bod Llosgi Glaswellt yn elfen o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac felly'n effeithio arnynt hwy. Gweithio gyda Chyfarwyddiaeth materion gwledig Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â thirfeddianwyr a'u hysbysu am y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni wrth losgi deunydd ar eu tir. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
| --- | --- |
| 4 Ehangu ein trefniadau partneriaeth i weithio gydag asiantaethau eraill ledled Cymru er mwyn targedu ein gweithgareddau diogelwch tân yn y cartref at y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. | • Datblygu gweithgareddau lleol ymhellach sy'n briodol i bob gorsaf dân er mwyn cynyddu gweithgarwch Diogelwch Cymunedol sy'n berthnasol i bob ardal. |
| 5 Rhoi canlyniadau adolygiad o brosesau busnes yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol ar waith. | |
| 6 Defnyddio dulliau ymateb mwy deallus. | |
| 7 Cefnogi'r fenter i sicrhau y bydd gan bob tŷ newydd a adeiledir system chwistrellu dŵr. | |
| 8 Adolygu ein cyfres o weithdrefnau gweithredu safonol a'n cynlluniau tactegol. | |
| **Amcan 2** Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n arddel ein gwerthoedd | **Ein Pobl: Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n arddel ein gwerthoedd** |
| 1 Gweithredu ein Strategaeth Pobl. | • Adolygu'n gyson drwy gyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau yn erbyn y chwe Maes a nodwyd yn y Strategaeth Pobl, sef:<br>- Datblygu'r sefydliad<br>- Datblygu'r gallu i arwain<br>- Datblygu sgiliau ac adnoddau'r gweithlu<br>- Recriwtio a chadw cyflogeion<br>- Tâl a gwobrau<br>- Datblygu gallu Adnoddau Dynol |
| 2 Defnyddio ein gweithlu mewn ffordd greadigol i sicrhau parhad busnes. | |
| 3 Ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd a'n gweithlu presennol. | |
| 4 Gweithredu ein Siarter Aelodau. | |

| Amcanion Gwella 2011-12 | | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|---|
| **Amcan 3** | Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau | **Ein Hadnoddau: Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau** |
| 1 | Gwneud y defnydd gorau o asedau drwy roi proses reoli fwy effeithiol ar waith drwy raglen adnewyddu cerbydau ac olrhain asedau. | • Cychwyn yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Tân a Ddarperir. |
| 2 | Datblygu'r rhaglen cynnal a chadw eiddo adweithiol. | • Datblygu'r rhaglen cynnal a chadw eiddo arfaethedig. |
| 3 | Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2010/2014. | • Targedu camau gweithredu o fewn y Strategaeth Rheoli Asedau a chynlluniau rheoli cysylltiedig. |
| 4 | Cynnal adolygiad lefel uchel o gyfraniad pob gorsaf at ddiogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân a nodi'r meysydd hynny lle y dylid cynnal dadansoddiad manylach. | • Adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| 5 | Archwilio effeithiolrwydd pob cyfarpar pwmpio eilaidd a'r angen amdano yn y dyfodol gan gynnwys lleoliad, data am ddigwyddiadau, cyfradd galwadau a threfniadau criwiau. | |
| 6 | Archwilio effeithiolrwydd pob cyfarpar arbennig gan gynnwys lleoliad, data am ddigwyddiadau, cyfraddau galwadau a threfniadau criwiau. | |

| Amcanion Gwella 2011-12 | Amcanion Gwella 2012-13 |
|---|---|
| **Amcan 4** Gwella'r modd y darperir gwasanaeth mewnol drwy sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl | **Ein Sefydliad: Gwella prosesau busnes mewnol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol a phobl** |
| 1 Adolygu a symleiddio systemau a phrosesau gwasanaethau cymorth ein prif swyddfa er mwyn nodi lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd. | • Mabwysiadu dull meddylfryd systemau strwythuredig o ran ein prosesau gyda'r nod o nodi a dileu gwastraff. |
| 2 Rhoi hyfforddiant i'n rheolwyr canol ar y model meddylfryd systemau i'w galluogi i feddu ar yr adnoddau a'r dulliau i ysgogi newid a sicrhau gwelliant yn eu meysydd eu hunain. | • Cychwyn gwaith ar fireinio prosesau busnes yn y meysydd adnoddau dynol a'r gyflogres, cyllid a chaffael ac amserlennu hyblyg. |
| 3 Nodi a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd a allai godi o ganlyniad i heriau i strwythurau'r sefydliad a gwasanaethau mewnol. | • Hyfforddi personél mewn unrhyw brosesau busnes diwygiedig. |
| 4 Cwmpasu adolygiad TGCh mawr. | • Cychwyn datblygu ein Hamcanion 2013/2014 i gynnwys ymgysylltu â chwsmeriaid. |
| | • Lle y cytunir ar hynny, parhau i weithredu canlyniadau asesiadau o'r gwasanaeth, adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac adolygiadau thematig o fewn y gwasanaeth. |
| | • Cymryd rhan lawn yn y Pwyllgor Materion Cenedlaethol i ddod o hyd i atebion cydweithredol lle y bo'n briodol. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan 5** | Hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau |
| 1 | Cynnal mentrau addysg cymunedol â grwpiau ieuenctid ac oedolion sy'n agored i niwed. |
| 2 | Diwygio pob dogfen angenrheidiol i sicrhau ei bod yn ymgorffori lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy. |
| 3 | Adolygu ein Cynllun Tir ac Adeiladau. |
| 4 | Cynyddu'r defnydd o ddulliau ymateb deallus er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn amserol gan leihau effaith tanau. |
| 5 | Gweithio mwy gyda'r sefydliad partner er mwyn cyflawni cydamcanion a sicrhau bod cymunedau'n fwy diogel. |
| 6 | Targedu gwiriadau diogelwch tân yn y cartref tuag at ardaloedd lle y nodwyd risgiau. |
| 7 | Gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn i orsafoedd tân fod yn lleoedd diogel a chynaliadwy i weithio ynddynt ac, mewn sefyllfaoedd priodol, yn gyfleuster at ddefnydd y gymuned hefyd. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o’i berfformiad yn ystod 2011-12 at gael ar wefan yr Awdurdod www.southwales-fire.gov.uk (Cynllun Gwella Strategol 2012-13).

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn 2012-13 | |
|---|---|
| C5 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn arbennig:<br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br>• datblygu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a chynlluniedig o ymgysylltu â'r cyhoedd - er mwyn nodi meysydd, materion a phynciau sy'n peri risg; canfod yr adnoddau angenrheidiol; lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith; sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf. |
| C6 | Datblygu ffyrdd o fonitro, defnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod. |
| C7 | Ymestyn y strategaeth gyfathrebu gyfredol i gynnwys gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n briodol ac wedi'i gynllunio ac sy'n cyd-fynd ag amcanion gwella a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod. |
| C8 | Sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn dod yn ymwybodol o'r amcanion gwella diwygiedig y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2012. |
| C9 | Paratoi crynodeb o'r Cynllun Gwella Strategol i ddarparu diweddariad clir a chryno i'r cyhoedd er mwyn helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a'i heriau yn y dyfodol. Dylai hyn fod ar gael yn eang a dylai ddangos i bobl lle y gallant gael rhagor o wybodaeth. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk